Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru:

# Newid yn y gofynion tystiolaeth i'r rhai sy'n gwneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl heb ddiagnosis Awtistiaeth ffurfiol

## Mawrth 2024

SFWIN 03/2024

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn rhoi manylion y newid yn y gofynion tystiolaeth i fyfyrwyr heb ddiagnosis Awtistiaeth ffurfiol sy'n gwneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl gan Gyllid Myfyrwyr Cymru:

## Newid yn y gofynion tystiolaeth i'r rhai sy'n gwneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl heb ddiagnosis Awtistiaeth ffurfiol (Mawrth 2024)

Er mwyn i fyfyrwyr fod yn gymwys i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl, rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth feddygol sy'n cadarnhau eu problem iechyd meddwl, eu salwch hirdymor, neu eu hanabledd. At ddibenion y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr, mae'r diffiniad o anabledd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ar hyn o bryd, at ddiben cael Lwfans Myfyrwyr Anabl, rhaid cael tystiolaeth o ddiagnosis ffurfiol o Awtistiaeth. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o fyfyrwyr heb ddiagnosis blaenorol yn methu â bodloni'r gofyniad oherwydd hyd presennol y rhestrau aros ledled Cymru i oedolion sy'n ceisio diagnosis ffurfiol; efallai bod y myfyrwyr hyn yn colli lwfans sy'n ddyledus iddynt.

Yn dilyn trafodaethau manwl gydag arweinwyr clinigol sy'n darparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yng Nghymru, penderfynwyd derbyn llythyr sy'n dangos bod yr unigolyn ar restr aros y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, a ddarperir yng Ngham 5 o'r broses, fel tystiolaeth i fodloni'r gofyniad cymhwysedd a thystiolaeth ar gyfer Lwfans Myfyrwyr Anabl. Ar y pwynt hwn ym mhroses y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, cadarnheir bod yr unigolyn yn cael ei roi ar y rhestr i gael diagnosis ffurfiol, ond y bydd yn gorfod aros ei dro ar restr ardal y bwrdd iechyd lleol; bydd yr unigolyn wedi cael nifer o asesiadau a sesiynau sgrinio diagnostig trylwyr ar gyfer Awtistiaeth, a'i achos wedi'i basio ymlaen.

Er mwyn cefnogi'r newid hwn, nid oes rhaid i lythyr y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig gynnwys effeithiau dydd i ddydd Awtistiaeth ar y myfyriwr mwyach; mae Awtistiaeth yn gyflwr gydol oes, ac o'r herwydd, gall asesydd anghenion astudio ystyried yr effaith y mae cyflwr y myfyriwr yn ei chael ar ei astudiaethau wrth gwblhau ei asesiad o'i anghenion astudio.

Mae'r newid hwn yn berthnasol ar unwaith ac mae'n gymwys i unrhyw gais lle mae tystiolaeth sy'n ymwneud â diagnosis o Awtistiaeth yn dal i gael ei disgwyl.

Bydd Ffurflen Feddygol Cyllid Myfyrwyr Cymru yn parhau i gael ei derbyn fel tystiolaeth feddygol amgen.

## Ymholiadau

Os oes gennych ymholiadau am Lwfans Myfyrwyr Anabl, cysylltwch yn uniongyrchol â Chyllid Myfyrwyr Cymru .

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch ag Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru drwy e-bostio: - isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru.

Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael o ofyn amdanynt.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.